CYFRES LLANBEDR | IONOR, 1926. | CYF. 26. RHIF 1.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

NODION Y GOLYGYDD.
Y GOLLED—STORI FER.
CYFIEITHWYR Y BEIBL CYMRAEG.
CAERONNEN.
SANTA CLOS.
MARWGOFION.
AT Y GOHEBWYR.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Geiriadur Beiblaidd

Y Gwaith Pwysicaf ar y Beibl
a Gyhoeddwyd yn Gymraeg.

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.
Pris 1/6 y Rhifyn.

I'w gael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty.

Gan ROLAND THOMAS, M.A.
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-.; Drwy'r Post, 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd

Cyfres Llanbedr. IONOR, 1926. Cyf. XXVI. Rhif 1.

NODION Y GOLYGYDD.

WRTH eistedd yng nghadair wichlyd y golygydd am y tro cyntaf, dymunaf Flwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr y misolyn, ond o gofio ymdrech ddiflin y gwyr annwyl a fu'n eistedd ynddi o'm blaen, ni fedraf ond ymesgusodi drwy ddywedyd na chwenychais eistedd ynddi. Gwn am gymhwysterau golygydd ac am fy ysbryd aflonydd fy hun. Oherwydd hyn addawaf roddi un arbenigrwydd ar dymor fy ngolygyddiaeth, caiff fod yn dymor byr, ond gyda chydweithrediad gwresog medr fod yn dymor hapus. Amser a ddengys.

TREM YN OL.

Nid wyf yn sicr na'm hystyrir yn ddrylliwr y delwau, ac ar ambell dro caraf edrych arnaf fy hun yn y goleu hwn ond yr wyf yn eilun addolwr o weld ymdrechion y rhai a fu o'n blaen heb hanner ein manteision ni. Nid yw ymdrech frwdfrydig y teidiau gynt i'w chanfod heddiw ac er rhoddi ysbrydiaeth newydd hwyrach i rywun y rhoddaf drem yn ol.

Ar y bumed o Awst, 1767 ordeiniwyd y Parch. Josiah Rees, mab y Parch. Owen Rees o Aberdâr yn weinidog ar Eglwys Gellionnen, ac efe arweiniodd y gynulleidfa ar hyd llwybrau mwy rhyddfrydig.

Eurgrawn Cymraeg

Yn y flwyddyn 1770, ac yntau ond 26 oed, cyn-lluniodd y Cylchgrawn Cymraeg cyntaf i bob ystyr ymarferol, ac er y mynnir rhoddi'r clod i arall, nid peth rhwydd yw anghredu geiriau'i fab Dr. Thomas Rees yn ei " Beauties of South Wales" td. 670 ; " It was projected and conducted at his own charge." Ymhen chwarter canrif, y mae'r Parch. Thomas Evans, Pen-pistyll, wedi hyn o Aberdâr—Tomos Glyn Cothi—yn gafael yn yr un syniad, ac er yn ymdrechu'n ddiflin, yn methu. Nid oedd yr oes

Y Drysorfa Gymysgedig

yn barod. Yr oedd Arthur wedi dihuno'n rhy fore, ac ni chyhoeddwyd ond tair rhan o'r "*Miscellaneous Repository neu y Drysorfa Gymmysgedig.*" "*Rhifyn cyntaf, pris Chwe' Cheiniog, i ddyfod allan yn Chwarterol am y Chwarter Haf,* 1795. *Caerfyrddin*: *Argraffwyd gan J. Ross,* 1795."

Wright, 1816.

Wedi'r cynnyg hwn bu ychydig oedi ond daeth y Cenhadwr Wright ar daith drwy'r deheubarth a chanfu fod angen Cylchgrawn er lledaenu y neges ryddfrydig. Dyma ddywed yng ngeiriau Tomos Glyn Cothi mae'n debig,—"Cyn imi deithio ymhell yn eich gwlad, fe darawodd ar fy meddwl . . . . y byddai cyhoeddiad bychan cylchynol yn yr Iaith Gymraeg yn debyg o wneuthur mawr ddaioni. . . . . Goddefwch imi eich annog i geisio sefydlu y fath gyhoeddiad. Bwriwch iddo gael ei gyhoeddi yn fisol am dair ceiniog y rhifyn dan yr enw, 'Y Diwygiwr Cymraeg Dwyfeinyddol' (?)." Ni ddaeth dim o awgrym Wright am dro.

Ar y 24 o Ragfyr, 1824, ysgrifenna y Parch. John Evans, Caerfyrddin (1780—1825) a'r Athro D. L. Jones, Glynadda (1788—1830) at y Gymdeithas yn y Cyfarfod Chwarter yn Notais ;—"We whose names are underneath have been requested to undertake the editorship of a small periodical Welsh publication," ond ni ddaeth ond yr ateb hwn yn ol,—"We, the ministers and friends meeting at Nottage on the 30th, Dec. 1824, cannot interest ourselves in any periodical publication in the Welsh Language while the Unitarian Society is not in a flourishing condition."

Er yr ateb pendant hwn, cawn ymhen rhyw bedair blynedd fod Dr. Charles Lloyd, y Parch. John Jones a Rees Jones, Pwllffein yn bwriadu symud a cheir llythyr y Parch. John Thomas, Pantydefaid ar y nawfed o Fai 1828 yn croniclo awgrym Dr. Charles Lloyd, "that a Welsh Monthly publication should be set on foot without any delay." Ni ddaeth dim o'r awgrymiadau hyn oherwydd yn ol un ysgrifennydd fod pob un yn mynnu ei ffordd ei hun.

"Yr Hanesydd"

Yn 1830, y mae'r cymeriad galluog ond ansefydlog hwnnw y Parch. T. J. Griffiths (Tau Gimel) yn cynnyg ac yn dwyn allan rhyw rifyn neu ddau o Gylchgrawn Cymraeg, "Yr Hanesydd," a'i brintio gan Jenkins, Aberystwyth. Nid oedd gennym eto gylchgrawn i ni ein hunain a thua 1834 defnyddid "Seren Gomer" i groniclo ychydig o'n hanes, ond bu raid aros tan Medi 1847 cyn cychwyn Cylchgrawn Misol yr enwad a'i alw'n "YMOFYNNYDD."

"Yr Ymofynnydd"

Ni bu'i yrfa'n ddifwlch. O Fedi 1847 hyd Ebrill 1854 yr aeth heb flino ac wedi cael

ysbaid cerddodd eilwaith o Ionor 1859 hyd Mehefin 1865, a'i olygydd oedd y Parch J. E. Jones, Penbont-ar-Ogwr. Nid oedd neb ellid tybio yn barod i'w gymryd wedi ymddiswyddo o'r Parch. J. E. Jones, a chwyna Gwilym Marles mewn llythyr at y Parch. R. J. Jones, M.A., 3 o Orffennaf, 1865,—"Ye marked lukewarmness, ye well nigh studied avoidance of discussing ye question what to do for ye Ymofynnydd displayed by the majority of ye ministers at ye meetings at Pantydefaid ye other day has if anything confirmed me in ye necessity of ye step, if we mean to hold communication with ye growing intelligence of our congregations." Nid oedd ganddo ond cychwyn misolyn ei hunan a llanwodd "Yr Athraw" fwlch o Fedi 1865 hyd Awst 1867. Yn Ionor 1868 cydiodd yr Athro D. L. Evans yn "Yr Ymofynnydd" a chadwodd ef ar ei draed hyd Rhagfyr 1872 ond gorfu iddo wasgu Gorffennaf, Awst, Medi a Hydref 1869 yn un rhifyn. Ym Mawrth 1873 daeth i law yr Hybarch R. J. Jones, M.A., a chadwodd ei afael arno hyd Rhagfyr 1887 ond bod yna fwlch o Chwefror 1879 tan Medi 1881. Estynnodd y Parch. R. J. Jones ef i law yr annwyl Barch. Hathren Davies, a chadwodd yntau ef yn flodeuog o Ionor 1888 hyd Ionor 1901. Ar un adeg, nid yn unig cedwid "Yr Ymofynnydd" yn gryf ond yr oedd yna "*Belydryn*" o oleu o Bontypridd o Ionor 1895 hyd iddo fynd tan gwmwl yn Rhagfyr 1895. Ei olygydd oedd y Dr. W. Griffiths, o Aberystwyth yn awr.

"Yr Athraw."

"Y Pelydryn."

Pan roes Hathren "Yr Ymofynnydd" i fyny, cydiodd y Gymdeithas ynddo ac o Ionor 1901 hyd heddiw Cylchgrawn y Gymdeithas ydyw ac nid Cylchgrawn y Golygydd. Apwyntiodd y Gymdeithas y Parchedigion D. Evans, Cribyn a T. Arthur Thomas i'w olygu gyda Sarnicol yn olygydd y Farddoniaeth. Yn Nhachwedd 1903 cymerth y Parch. William James, B.A. le y Parch. D. Evans ond enciliodd yntau ym Medi 1907 ac nid apwyntiwyd neb yn ei le. Yn Awst 1911 rhoes Sarnicol y Farddoniaeth i fyny, ond er pob cyfnewid daliodd y Parch. T. Arthur Thomas yn ffyddlon iddo am chwarter canrif o Ionor 1901 hyd Rhagfyr 1925.

"Dyddiau Ieuenctid."

Am ychydig amser mabwysiadwyd "Young Days" i'r bobl ieuainc ac ychwanegwyd rhyw bedair tudalen Gymraeg ato dan olygiaeth y Parch. T. J. Jenkins, Gellionnen, gan ei alw yn "*Ddyddiau Ieuenctid.*" Dyna welir o dremio'n ol a chredaf y dylasem fod yn falch o'r hanes oherwydd nid pennod dlawd mohoni ar unrhyw ystyr, a dylasai ein hysbrydoli, a ninnau ar roddi

TREM YM MLAEN.

Nid oes gennyf ond cyfaddef nad yw'r llwybr yn glir iawn. Petrusais droion wrth droi tudalennau ambell hen rifyn o'r "YMOFYNNYDD" a chanfod fod y Golygydd wedi'i ysgrifennu bron yn gyfangwbl. O fwrw golwg tybiaf fod yr ysgrifennwyr cyn brinned heddiw a chynt. Gwn yn dda fod dywedyd nad yw heddiw i fyny a'r hen rifynnau yn esgus purion dros ei roddi i fyny. Myn llu rhyw gyfnewid ynddo er gwell ond ni wyddant yn iawn beth a hoffent. Rhwng pawb felly nid oes imi ond cysuro fy hun drwy ddywedyd gyda'r bardd ;—

"Grwgnachwyr wrth natur yw dynion o hyd—
Mae'n annodd i mi eich boddloni chwi i gyd ;
A phe deuai Iesu yr eilwaith i'r byd
Ni byddai yn debyg o'ch boddio chwi i gyd."

Er dywedyd hynyna hoffwn fod pob teulu yn ei dderbyn nes gwneuthur "YR YMOFYNNYDD" yn "ddolen gydiol" rhwng teuluoedd o'r un ffydd gartref ac ar wasgar. Nid yw amgen na "*llythyr misol*" y Gymdeithas atom bob yr un. Hebddo ni buasem yn gwybod hanes ein gilydd, a chydag ychydig ymdrech medrid ei wneuthur yn llythyr misol y byddai disgwyl am dano nes codi cywilydd ar bob un heb ei weled. Y mae'n agored i bob un yn ddiwahan. Ceisiaf gael amrywiaeth ynddo a gobeithiaf na bydd raid imi anghofio'r plant. Hyd y gwn i, ni wyr plentyn am dano ac ni ddarllain llawer mohono wedi prifio am y rheswm hwn. Carwn ei gael wedi'i ysgrifennu mewn Cymraeg gloyw, ond nid oes raid i neb betruso ond y croendeneu. Gobeithiaf iddo fod yn Gylchgrawn diddorol ac ni wthir pregeth iddo er ei lanw ar unrhyw gyfrif. Bydd awgrymiadau yn dderbyniol ond ysgrifau yn fwy felly a cheisiaf ei gadw yn "YMOFYNNYDD" gonest a didderbyn wyneb am y goleu ac am y gwir heb ragfarn na rhagrith.

FY NGHREFYDD I.

Llai o'r byd a'i bethau,
Mwy o'r cain a'r pur ;
Llai o drin cleddyfau,
Mwy o leddfu cur ;
Llai o drais a gormes,
Mwy o uwch i'r lan ;
Llai o dwyll a rhodres,
Mwy o godi'r gwan.

Llai o ymrafaelio,
Mwy o rin a moes ;
Llai o bwys ar gredo,
Mwy o gario'r groes :
Llai o ffurf a defod,
Mwy o Iesu byw ;
Llai o barch i bechod,
Mwy o garu Duw.

Ferndale. T.H.T.

Y GOLLED.

(*Stori Fer.*)

Yr oedd Tomos Huws yn wr gweithgar, cyfrifol a drigai ym Mhentwyn, pentref gwledig ym Morganwg.

Llafuriodd yn ddyfal yn y lofa am ddeugain mlynedd. Cafodd ei wraig gryn drafferth i fyw ar ochr dde i'w enillion prin.

Ymgeisydd peryglus mewn Eisteddfodau oedd Tomos Huws. Un adeg, mentrai'n aml i ornestau lleol y beirdd. Nid yn fynych y dychwelai oddiyno heb ddwyn y llawryfau gydag ef. Yn y modd hwn ychwanegodd ef yn sylweddol at ei gyflog fechan fel glowr. Ymhyfrydai fwy yng nghaethiwed y gynghanedd nag yn rhyddid y bryddest a'r delyneg. Bernid ef yn gampwr ar Gywydd ac Englyn.

Oberwydd ei ddawn a'i serchogrwydd, llwyddodd Tomos Huws i gasglu o'i gylch gwmni diddorol o wŷr llengar. Tan ei arweiniad ceid teithiau bendithiol dros feysydd Llenyddiaeth Gymraeg.

Yn wir, o dipyn i beth, esgorodd y cwmni hwn ar sefydliad anrhydeddus a adwaenid ym Mhentwyn wrth yr enw—"Cymdeithas Llên a Chân." Daeth hon i safle ym mywyd yr ardal, a chyfrannodd lawer at ddatblygiad y trigolion.

Unwaith yn y mis, dan nawdd y Gymdeithas hon ceid Eisteddfod fechan, a dyfodd cyn hir yn amgylchiad pwysig a gwerthfawr.

Un o'r edmygwyr pennaf a gafodd Tomos Huws oedd llanc o'r enw—Bob Jones. Unig fab i weddw dlawd ydoedd. Gwedi treulio ohono flynyddoedd yn ysgol feunyddiol y pentref, gwasanaethodd Bob fel bugail mewn amaethdy wrth gyfyl y lofa.

Claddodd ei dad yn gynnar, a hyny o achos damwain yn y lofa. Bwriad y mab hefyd oedd dilyn galwedigaeth ei dad. Croes i hynny oedd dymuniad ei fam.

Pan ddaeth Bob yn ddeunaw mlwydd oed mynnodd gefnu ar y defaid gan wynebu ar y pwll glo.

Trwy drugaredd, bu rhyw allu caredig yn agor llwybrau i ddwyn Tomos Huws a Bob Jones at ei gilydd. Cydweithiodd y ddau am gyfnod hir er mantais y naill a'r llall.

Yn gynnar, gwelodd Tomos fod gallu arbennig yn y llanc. Dysgai ei grefft yn gyflym, ac ymhyfrydai yn ei waith. Ar gymhelliad Tomos, ymddiddorodd hefyd mewn darllen llyfrau da. Wrth oleu'r gannwyll hyd oriau man y boreu darllenai Bob yn ddiflino.

Un dydd, aeth cyfaill at Domos i'w dalcen, a holodd ef ynglyn a Bob.

"Myn brain i," ebr Tomos, "mi a i ar 'y'n llw y gneith y crwt scoler da, ryw ddydd."

"O, felly'n wir."

"Gneith, gneith, weldi," ychwanegai Tomos, gydag edmygedd.

"Gei di weld mod i'n gweyd y gwir wrthot ti."

"A mi ddaw yr un fath a tithe te." meddai'r cyfaill.

"Paid son am shwt beth," ebr Tomos gyda gwen o foddhad ar ei wyneb.

Cam pwysig yn natblygiad Bob oedd y dydd pan anogwyd ef gan Domos Huws i bwrcasu copi o "Ysgol Farddol" Dafydd Morganwg.

Ar derfyn chwe mis o efrydiaeth galed casglwyd ganddo wybodaeth helaeth o'r cynghaneddion. Ceisiodd yr athro ganddo gyfansoddi englyn. Ufuddhaodd yntau, a digon naturiol oedd canfod ychydig frychau ar ei waith.

Aeth misoedd heibio, a thyfodd Bob yn grefftwr digon da i gyfansoddi, gan amlaf, englyn, hollol gywir.

Erbyn hyn yr oedd Eisteddfodau Pentwyn yn eu hanterth. Hogai Bob ei gleddyf yn loyw a chyson ar gyfer gornest a Tomos Huws.

Un mis, daeth testun wrth fodd ei galon. Eisteddodd yntau yn hwyr, bob nos, wrth ymyl y tan, gan geisio llunio englyn cryf.

Ceryddodd ei fam ef, un bore am aros cyhyd, yn ddiweddar, cyn noswylio.

"Beth yw'r mater, Bob?" gofynnodd yn ddigon diniwed.

"Ceisio neud englyn, mam, i guro Tomos Huws yn y gystadleuaeth nesa," oedd yr ateb.

"Beth yw'r testun, Bob?"

"Y lofa."

"Bob bach, churi di byth o Tomos ar y testun na."

"Pam ny, mam?" gofynnodd yntau.

"Wel,—ma fe wedi bod yn'i destun er's deugen mlynedd."

Yr unig ateb a roddodd Bob oedd—"Mam fach,—pidwch a sharad yn ddwl."

Trannoeth, wrth fod Bob a Tomos yn cerdded i'r gwaith gofynnodd Tomos,—

"Shwt hwyl gest ti yn y "Lofa" neithiwr."?

"Dim llawer,—hanner dram o rwbish."

Neshaodd yr Eisteddfod gyda chyflymder ym mhrofiad Bob. Llwyddodd i nyddu englyn da, gwedi hir drafferthu. Ddeuddydd cyn danfon y cynhyrchion i ddwylo'r Ysgrifennydd, bu'r ddau gystadleuydd, Tomos a Bob, yn trin eu rhagolygon. Mentrodd y disgybl roddi her i'w athro ar yr achlysur hwn. Gwyddai fod ganddo englyn cywir ei gynghanedd. Parthed i'w synwyr, boddlonwyd ef. Yn wir, teimlai'n sicr na fedrai efe byth a gwneud gwell gwaith ar y testun na'r ymgais hwn.

Ymhyfrydai Tomos Huws yng ngobaith Bob. Mantais mewn cystadleuydd yw meddu ymddiriedaeth yn ei allu, yn enwedig pan fyddo sail i hynny.

"Dos dros dy englyn, Bob."

Gyda balchter, adroddodd yntau ei gyfansoddiad gan wasgu swyn y gynghanedd i bob cymal ohono.

"Ar fencosi i, Bob, dyna waith da iawn," ebr Tomos, gan gydio yn ei fandrel.

"Ti nath hwnna?"

"Ie, bob gair," meddai Bob yn falch.

Yna gofynnodd y disgybl am englyn ei athro.

"Dyw e ddim yn un da," oedd ateb gofalus Tomos.

"Bant a'r Cart, Tomos," meddai Bob yn frysiog.

Atebodd yntau gan adrodd ei englyn yn dawel ei lais, a digyffro ei osgo. Pesychodd Bob cyn i'r Prydydd ofyn,—

"Beth yw dy farn di ohono fe."

"Wel, wn i ddim yn iawn. Dyw clywed englyn unwaith ddim yn ddigon i fi ei feirniadu."

Yn wyneb y cyfaddefiad hwn, un cyflym iawn ei feddwl a chraff ei gof oedd Bob. Ar ol clywed englyn unwaith argreffid ef, gair am air, yn sicr am fisoedd.

"Ges ti wall ynddo fe, Bob?" ebr Tomos yn hamddenol.

"Dw i ddim wedi stydio digon o'r cynghaneddion ma i fod yn shwr ar unwaith."

Felly rhoddodd Tomos yr englyn eilchwyl i'r disgybl.

"Shwt englyn yw e, Bob?"

"Cystal i fi gyfadde, ma fe'n un da ofnadw," oedd cyfaddefiad Bob. "Fydd gen i ddim smell y tro ma."

Ar y gair cerddodd ymaith gan gyhoeddi—

"Wel, r wy i am fynd i mofyn diferyn o ddwr."

"Ymddangosodd hyn yn resymol hollol i Domos, ond ychydig a wyddai fod yr ymadawiad hwn yn gyfle i bwrpas Bob. Dychwelodd ar fyr, a bu diwedd ar waith y dydd.

"Odi, Tomos," ebr Bob, "ma fe'n well englyn na hwn sy gen i—o beth cynllwn."

Distawodd ar hyn am ychydig, cyn ychwanegu,—

"Ond ma rhyw lais yn gweyd wrth w i ma fi nillith y wobr."

"Fe gewn ni weld ny, miwn pryd, Bob," meddai Tomos.

Wrth i'r ddau droi tuag adref, cynghorodd Tomos ei ddisgybl—

"Paid ag adrodd dy englyn wrth neb byw bedyddiol."

Addawodd yntau gadw'r gyfrinach yn ddiogel iddo'i hun—a bu gystal a'i air hefyd.

Wyddest ti, Bob, fydda i byth yn gweyd fy englynion wrth neb." ychwanegai Tomos.

"Cynllun da yw hwnna hefyd," meddai Bob.

Cerddodd y ddau ymlaen am dipyn

heb yngan gair, nes i Domos dorri ar y distawrwydd.

"Beth gei di yn ffugenw, gwed, Bob ? "

" Wn i ddim wir," oedd yr ateb.

" Neith Bob y tro ? "

" Na gwell fuse ' Robin Fardd.' "

" Dyna fe i'r dim," meddai Bob. " Gneith, fe neith ' Robin Fardd ' y tro yn iawn."

" Mi ddefnyddia inne ' O'r Dyfnder ' wrth y'n englyn i " ychwanegai Tomos.

Wrth iddynt ymadael ar groesffordd y pentref, geiriau olaf Tomos i Bob oedd am iddo gadw helynt y gystadleuaeth a'r ffugenwau yn hollol iddo'i hun.

" O'r gore, Nos da."

" Nos da, Bob."

Dridiau cyn yr Eisteddfod bu Tomos a Bob yn gweithio mewn talcen peryglus. Tua hanner dydd, dywedodd Tomos wrth Fob am baratoi cinio.

Cerddodd yntau ymaith, ond ar fyr, clywodd dwrw mawr.

Rhedodd i gyfeiriad y swn, a gweloodd i gwymp ddigwydd yn ei dalcen.

Gwaeddwyd am gymorth, a bu dwylo parod wrthi'n ddyfal yn symud y cruglwyth. O'r diwedd deuwyd ar draws corff anymwybodol Tomos Huws.

Y nos Fercher ddilynol, cynhaliwyd yr Eisteddfod ym Mhentwyn. Ychydig o hwyl a gafwyd ar y cystadleuthau, oherwydd crogai cwmwl trwchus o ofid uwchben. Llusgo'n flin a diegni a wnai pob cystadleuaeth. Ceid nodyn lleddf yn llais y cantorion. Ychydig o hiwmor a ddiferai dros wefus yr arweinydd ffraeth.

O dipyn i beth, deuwyd at y feirniadaeth ar gystadleuaeth yr Englyn i'r ' Lofa.'

Mynegodd y beirniaid fod ugain englyn ar y maes. Gwedi eu pwyso yn ofalus, a'u mesur yn fanwl, nid oedd amheuaeth yn ei feddwl ynglyn a'r cyfansoddiad goreu. " Ond," ychwanegodd, " mae yn y gystadleuaeth hon ddirgelwch mawr i mi. Daeth yr englyn goreu i mewn ddwy waith, gair am air yr un fath, eto mewn llawysgrifen wahanol."

Mynegodd y beirniad mai'r ffugenwau wrth y cyfansoddiad hwn oedd—" "O'r Dyfnder " a "Prydydd Ieuanc." Ni chredai y buasai'r englynwr hwn yn ysgrifennu ei waith a'i law ei hun, ac hefyd yn gofyn i rywun arall wneud hynny ar gyfer yr un gystadleuaeth. Ei farn onest oedd i ddau ddyn loffa ar yr un meysydd, a chanfod yr englyn hwn mewn hen gylchgrawn. Yna, gan wybod nad oes feirniad yn hollwybodol i'w gael, lladratawyd ganddynt ill dau. Ychwanegodd—

" Ni feddaf yr un esboniad arall ar y dirgelwch. Felly, dan y dybiaeth fod y dyfaliad yma yn gywir, gyrraf yr englyn goreu hwn allan o'r ornest. Heb, amheuaeth, wedyn, dyfarnaf y wobr o hanner coron i awdur yr englyn a wisg y ffugenw— ' Robin Fardd.' "

Ar hyn, gwaeddodd yr arweinydd ar " Robin Fardd " i gyrchu ei wobr. Ymdawelodd pawb yn y wybodaeth na fedrai neb ond un bardd ennill am englyn mewn Eisteddfod ym Mhentwyn.

Yn unol ag arferiad, galwodd yr arweinydd eilchwyl am " Robin Fardd ". Y tro hwn, megys drychiolaeth, cododd Bob ar ei draed, ac esgynnodd i'r llwyfan. Y gofyniad a gafodd oedd—

" Ai chwi yw Robin Fardd' ' ? "

" Ie," oedd ei ateb swta mewn llais crynedig.

Cymysg oedd teimladau Bob, a pharlyswyd ei wefusau. Heb yngan gair i godi'r llenni ar ddirgelwch y gystadleuaeth, dychwelodd Bob i'w sedd. Cyhoeddodd yr arweinydd ei enw fel y buddugwr, ond yr oedd niwl dros feddwl mwyafrif y gynulleidfa. Credid mai cynrychioli Tomos a wnai. Ond na, tystiolaethodd ef ei hun yn bendant i'r gwrthwyneb.

Cyn diwedd yr Eisteddfod aeth Bob yn anesmwyth iawn. Ni fedrai wrando ar ddim—ond llais ei gydwybod ei hun. Cefnodd ar y dyrfa, ac aeth ar ei union i dy Tomos Huws.

Am ychydig amser, eisteddodd yn fud ac anghysurus yn y gegin.

Gofynnwyd iddo fynd i ystafeli arall Yno, mewn amdo, gorweddai gweddillion marwol ei gyfaill annwyl. Syllodd Bob yn hir ar yr wyneb llednais. Cronnwyd profiadau'r misoedd di-

wèddaf i derfynau'r deng munud hynny.

Aflonyddwyd ar ysbryd Bob, ac edrychodd yn wyllt o gylch yr ystafell Nid oedd neb byw yno ond efe. Gan blygu ei ben at yr arch sibrydodd wrth y corff—

"Ti oedd y goreu,—ond fi gafodd y wobr." Yn y distawrwydd llethol clywodd Bob y gofyniad hwn gan ei gydwybod,

"Pwy oedd y 'Prydydd Ieuanc'?"

Ei ateb brwd oedd,————

"Maddeu,—Maddeu—fi oedd——hwnnw."

Wrth ymadael a'r ty, y noson honno, safodd Bob am eiliad ar y trothwy, yng nghwmni gweddw Tomos Huws. Estynnodd hanner coron yn llechwraidd iddi,

"Beth yw hyn, ?" ebr hi.

"Enillion olaf Tomos Huws."

Y Parch. J. Seymour Rees.

CYFIEITHWYR Y BEIBL CYMRAEG.

(*Dalen o'r Hanes.*)

Yn 1563, y bumed flwyddyn o deyrnasiad Elsbeth, gosodwyd ar bedwar esgob Cymru ynghyd ag esgob Henffordd i ddwyn allan gyfieithad Cymraeg o'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin, ac i ddodi un copi o leiaf o'r naill a'r llall ymhob Eglwys trwy Gymru erbyn Mawrth laf, 1566. Oni chwblheid y gwaith erbyn y diwrnod hwnnw pennwyd dirwy o ddeugain punt yr un arnynt. Am ryw reswm boddhaol iddynt eu hunain, yn ddiau, anufudd fu'r esgobion i wys y Frenhines a'r Senedd. Welais i ddim gair o son fod y ddirwy wedi ei thalu, na bod y ceisbwl wedi crafangu meddiannau'r urddasogion fel y bygythid gwneud am esgeulusdod. Gan nad pwy o'r pumwr oedd yn gyfrifol am droi cefn ar yr anturiaeth, pair ymdrechion dyfal esgob Mynyw (Tyddewi) yn y blynyddoedd dilynol i mi gredu nad oedd ef beth bynnag yn euog o'r fath lyfrdra. Yn yr adeg dywyll honno ar wybodaeth grefyddol y'Nghymru cododd seren lachar o gyfeiriad annisgwyl, a fflachiodd ei phelydr o Wynedd i Ddyfed. Penderfynodd y lleygwr William Salsbri barotoi cyfieithad o'r Testament Newydd, a chafodd gydweithwyr cymwys yn Richard Davies a Thomas Hunt, sef esgob a chantor Mynyw.

Yn ychwanegol cydweithiodd Salsbri a'r esgob i droi'r Llyfr Gweddi Seisnig i'r iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd y ddau yn 1567; y Llyfr Gweddi ym mis Mai, a'r Testament Newydd ym mis Hydref.

Diddorol i mi fyddai traethu tipyn am nodweddau'r ddau, ond rhaid ymatal ar hyn o bryd.

Wedi i rywun gychwyn ar lwybr newydd dilynir ef gan ereill. Dyna ddigwyddodd ynglyn a chyfieithu'r Beibl. Dilynodd William Morgan (1542—1604), ond aeth ef a'i gynorthwywyr ymhellach na'u rhagflaenwyr Ganed ef yn Ewybrnant, ar gydiad plwyfi Dolwyddelen a Phenmachno. Cyrchodd Goleg Ieuan Sant, Caergrawnt, ac enillodd y radd arferol yn 1568. Bu yn Ficer Trallwng am dair blynedd (1575—8), yna symudwyd ef i Lanrhaiadr-ym-Mochnant; ac yn y llecyn anghysbell hwnnw y trigiannai pan gyflawnodd waith pennaf ei fywyd. Ar y cychwyn ei fwriad oedd cyfieithu'r Pumllyfr, eithr nid eiddo dyn ei ffordd bob amser. Dengys hanes a sylwadaeth na ellir dibynnu ar farn ei gydnabod am gymhwyster ysgolhaig i gyflawni tasg y sydd uwch eu cyrraedd hwy, neu yn groes i'r safonau a gydnabyddir ganddynt.

Pan glybu plwyfolion Llanrhaiadr ac ereill fod y Ficer yn bwriadu cyfieithu rhannau o'r Beibl cododd berw

a dadwrdd am nad oedd ef i'w tyb hwy yn gymwys at orchwyl mor bwysig. Maentumia rhai sgrifenwyr taw esgus yn unig oedd y wedd hon ar yr achwyniad, a bod y gwir reswm i'w gael mewn cyfeiriad arall, sef awydd i gadw y Beibl yn llyfr cyfrin at wasanaeth yr ychydig megys cynt; ac i rwystro'r lliaws rhag cydnabyddu a'r egwyddorion sydd yn gorwedd ynddo; am fod perygl y byddai iddynt yn ei oleuni dorri dros yr hen derfynau a osodasai'r tadau eglwysig, a bwrw ymaith ffurfiau a defodau'r Eglwys Gatholig.

Beth bynnag allo'r eglurhad priodol fod gorfu i Forgan ymddangos o flaen archesgob Caergaint er amddiffyn ei hun yn wyneb yr ensyniadau a wneid i'w erbyn.

Hawdd ddigon oedd i Whitgift farnu drosto'i hun am wybodaeth Ficer Llanrhaiadr o'r ieithoedd Hebraeg a Groeg, ond yr oedd iaith arall yn anhebgor, a honno fel pe wedi ei seilio a saith sel i olwg ei Raslonrwydd. Er mwyn boddlonrwydd i'w feddwl ei hun ar y mater gofynnodd i'w ymwelydd, "A fedrwch chwi Gymraeg cystal a Hebraeg? "Sylwer ar yr ateb: "Gobeithio y goddefwch i mi eich sicrhau y medraf iaith fy mam yn well nag un iaith arall."

Yn ystod yr ymchwil llwyr foddlonwyd yr Archesgob parthed cymhwyster Morgan i ymgymryd a'r gorchwyl, ac anogodd ef i fyned rhag ei flaen. Aeth yntau ymlaen, a hynny lawer ymhellach nag yr arfaethai ar y cychwyn; oblegid yn lle cyfyngu ei lafur i'r Pumllyfr troes y gweddill o'r Sgrythurau Hebraeg a'r Apocryff i iaith ei wlad ei hun gyd a chymorth Dr. David Powel, Edmwnd Prys, Richard Vaughan o Goleg Ieuan Sant, ac ereill o bosibl na enwir ganddo. Er mwyn hyrwyddo'r gwaith oedd mor anodd i gysodwyr anghyfarwydd a'r iaith penderfynodd fyned i Lundain, a threuliodd flwyddyn ddyfal yno fel gwestai Deon Westminster.

I ddihewyd ac ymroddiad William Morgan yr ydym yn ddyledus am yr argraffiad cyntaf o'r holl Feibl yn yr iaith Gymraeg.

Yn ddiddadl blwyddyn gofiadwy i'n cenedl ni yw 1588.

Wm. Griffiths.

Southgate, Aberystwyth.

GYLCH Y FORD FACH.

Y mae'n ddydd Calan a minnau'n blentyn. Yr oedd calan slawer dydd yn Galan gwerth i'w gofio. Codi ymhell cyn torri o'r wawr er cael bod yn y fan ar fan o flaen pawb. Gweld ambell fwci yn y bore bach neu meddwl fy mod yn ei weld, waeth p'un. Edrych drannoeth a gweld yr hen gropyn eithin yn yr unfan. Yr oeddwn yn falch gael twym ac yn falchach fyth ar ddimai newydd, a phan gefais dair ceiniog gyda'i gilydd bu chwant retiro arnaf. Yr wyf wedi'u hala ers llawer dydd ond cofiaf yn dda fy mod yn eu cyfrif bob lled cae. . . Af adref am dro. Ar lawr pridd y gegin neu'r penisa yr oedd Ford Fach. Yr oedd y bwyd yn ffeinach arni nac ar y ford fawr. Sawl tro y pwysais arni gan wrando straeon y dyddiau gynt. Gŵyr fwy o'm hanes nag odid neb. Medrai ddywedyd wrthych am lanc direidus fel un ohonoch chwi: dim gwell na gwaeth: yn dod yn ddistaw bach er cymryd hosan nhad rhag ofn fod fy un i yn rhy fach i Santa Clos. Gweloddd rywun yn edrych i fyny drwy gorn yr hen simne lwfer rhag ofn i barddu'r lwfer dduo barf wen Santa Clos. Doi, ond nid pan ddisgwyliwn. Nid a hoffwn a gawn yn aml ganddo ond gwyddai'n well na mi. Tebyg ydyw Gylch y Ford Fach. Caiff

pobun eistedd yma nad yw'n rhy hen o ran ysbryd i feddwl am hela calennig neu ddychmygu gweld Santa Clos. Hoffwn i bob plentyn fod yn perthyn i "Urdd y Ford Fach." Sonid yn Iwerddon gynt am "Catch my Pal," a gobeithio y gwna pob llanc a geneth ieuanc, nid yn unig eistedd "Gylch y Ford Fach," ond peri i arall "hongian ei hosan" i Santa Clos neu "hela calennig" gydag Urdd y Ford Fach.

. . . . . .

Y mae gennyf newydd da i chwi. Pwy ddydd darllenwn y Papur Newydd, ac yn y papur yr oedd ffigyrau di ben draw. Nid wyf fi yn wr da gyda ffigers. Go debyg ydwyf i'r gwr hwnnw a gymerai arno ei fod yn medru darllain y papur newydd. "Pwy newydd?" meddai cyfaill wrtho. "Newydd, wir! Bu ystorm ar y mor ac y mae tair llong ar y gwaelod," meddai mewn difrif gan gyfeirio'i fys at lun tair llong. Ni ddywedodd ei gyfaill ddim pan welodd ei fod yn dal y papur o chwith. O chwith hefyd yr wyf innau yn deall *jjigers*. Son y mae'r papur am *census* neu amcan gyfrif o bawb sy'n mynychu'r Ysgol Sul a cheir fod dros bum miliwn neu un o bob wyth yn mynd i'r Ysgol Sul a gobeithio mai yr un hwnnw ydych chwi. Eto du yw'r hanes. Ceir fod rhyw 46 o filoedd yn llai ynddi eleni na llynedd a'n hunig fost ydyw ein bod ni wedi codi rhyw bedair mil a hanner tra mae pob enwad arall wedi gostwng. Er hyn y mae gennym le i wella ac ni bydd yn edifar gennych mewn dyddiau i ddod i chwi ei mynychu. Ar y llaw arall, gobeithio nad teimlad y gwr bach y sonir am dano yw eich eiddo chwi. Dywedai hwn wrth ei weinidog un dydd,—"Y mae'n well gennyf yr Ysgol Sul nag un Ysgol." "Paham hynny," meddai'r gweinidog a gwên o foddhad ar ei wyneb. Fel bollt y daeth yr ateb,—"*Am na ddaw ond un waith yr wythnos.*" Ond teg yw dywedyd wrth lawer ohonom ei bod yn dod yn rhy aml i'n bodloni ar fore Sul oer. Gyda llaw beth ddywed y gwyddonwyr. Y mae dydd Sul yn oerach nag un dydd ta sut y mae'i esbonio. Am y tro ni wnaf ond nodi'r bai, caiff arall ei esbonio.

O son am yr Ysgol Sul, nid yw ond teg cofio am yr Arholiad a rhoddi awgrym neu ddau. Nid oes gennym lawlyfr ein hunain ond yr wyf wedi darllain yn ddiweddar ddau lyfr bychan diddorol dros ben:

"*Actau'r Apostolion*" gan yr Athro A. C. Baird wedi'i drosi i'r Gymraeg gan y Parch. Llynfi Davies, M.A., B.D.,Pris Swllt. (Hughes a'i Fab).

"*Actau'r Apostolion*" Rhan II. (Pen. XIII.—XXVIII) gan y Parch. D. Peregrine, B.A., Trelech. Pris 1/6. (Llyfrfa yr Annibynwyr, Abertawe).

Nid yw ond awgrym cynnil, ond os oes un ohonoch a'i lygad ar y Fedal, byddai'n werth mentro deunaw ceiniog arni oherwydd y mae hanes ail daith Paul yn ddiddorol yn llyfr y Parch. D. Peregrine. Credaf y buasai llai o stwr mewn llawer dosbarth pe buasai'r athraw a'r llyfr hylaw hwn wrth ei ochr. Y mae gennyf ar y Ford Fach. Nid anniddorol fydd mynd gyda Phaul ar ei ail daith. Yr oedd cwestiwn enwaedu'r cenedl ddyn wedi blino'r eglwys fore a galwyd Cyngor Cyffredinol yng Nghaersalem er ei benderfynu. Yr oedd Paul a Barnabas ynddo'n cynrychioli Eglwys Antiochia o blaid rhyddid crefyddol. Wedi dychwelyd paratoes Paul ar gyfer yr ail daith. Yr oedd Antiochia'n drydedd dref Yr Ymerodraeth Rufeinig a thref fwyaf enwog Syria, yn enwog fel crud yr egiwys fore, fel man cychwyn Paul ar ei deithiau ac fel y lle cyntaf y llysenwyd y disgyblion yn Gristionogion. Amcanai Paul gymryd Barnabas gydag ef ond oherwydd gwrthod o Baul gymryd Ioan Marc perthynas i Barnabas gyda hwynt am iddo droi yn ol ar y daith gyntaf ym Mherga Pamphylia ymwahanwyd. Cymerodd Paul Silas gydag ef tra chymerodd Barnabas Marc gydag ef i Cyprus, ei ynys enedigol. Aeth Paul a Silas ar y llaw arall heibio eglwysi Syria a Cilicia. Talaeth oedd Syria ar lan mor y Canoldir i'r gogledd o Wlad Canaan, ac i'r gogledd o Syria, ac i'r gorllewin yr oedd Cilicia. Yr oedd yr eglwysi hyn yn agos at galon Paul oherwydd ei lafur yn eu plith am wyth neu naw

mlynedd (Gal. 1, 21; Act. IX, 29—30), ac ym mhrif dref Cilicia—Tarsus, y ganwyd Paul. Teithiodd y ddau apostol nes cyrraedd eglwysi Galatia yn Nerbe a Lystra. Yma clybu Paul am bregethwr ieuanc o'r enw Timotheus a cheir hanes am ei ddewis a'i ordeinio. Yna aeth y tri wyr hyn ymlaen drwy Phrygia, Galatia, a Mysia (talaethau yn y rhan o'r wlad a alwn ni yn Asia Leiaf). Gwarafunwyd iddynt fyned i Fythynia a throisant i aros yn *Nhroas*. Dyma brif borthladd Mor Aegea a phedair milldir i'r de y ceir olion hen ddinas enwog Troy, a gwelir hyd y daith o gofio fod tri chant a hanner o filltiroedd o eglwysi Galatia hyd Troas. Y mae'n werth hefyd dal ar yr awgrym i *Luc* ymuno a'r cwmni yn Nhroas. Dywedir hyn am fod yr awdur—Luc fel yr addefir heddiw—yn siarad nid am danynt hwy ond am danom *ni*. Gadawn ni am y tro Paul a Silas, Timotheus a Luc yn Nhroas yn barod i groesi'r mor i Ewrop er dwyn y newyddion da iddi.

N. N.

CAERONNEN.

(*Apel.*)

Pwy ddydd cerddwn ar hyd yr hen lwybr i Gaeronnen—hen lwybr y teidiau cyn iddynt erioed freuddwydio am Frondeifi: mynd heibio y ddwy Felindre, enwau annwyl yn hanes crefydd rydd a chroesi afon fechan Hathren sydd a'i henw o leiaf yn annwyl oherwydd chwarae o *ryurun* ar ei glan. Gerllaw y mae Cwmbedw, hen gartref gweinidog a heb fod nepell y mae Ffosyffin, man geni y Parch. John Davies, Castellnedd. Gyda llaw, onid yma bu'i dad, Timotheus Dafydd, Masnachwr Llewyg y Blaidd (Hops), yn crynhoi "Ychydig o Fyfyrdodau ar Grefydd" a'u cyhoeddi yn 1812. Diddorol ydyw aros a chwilio am y Ddolgam ar dir Coedmorfach. O glustfeinio ar noson dawel dychmygaf glywed llais Vavasor Powell yn pregethu yma rywbryd tua 1642. Yn uwch i fyny'r dyffryn y mae Bayliau, hen enw sy'n britho tudalennau hanes. Oddiyma y cymerwyd Evan Rhydderch, tadcu y Parch. Timothy Davies i Ludlow yn 1662 a'i ddirwyo £30 oherwydd ei fod yn cynnal pregethu yn ei dy. Yn 1672 ceir "*Licence to Evan Hughs to be a Cong. Teach. at the house of David Hughs of Kellan in Cardigansh.*" Ni wyr neb am dŷ Dafydd Hughs heddiw. Hwyrach mai'r Bayliau ydyw, hwyrach Caeronnen. Mynnir y dylesid dyddio Caeronnen tua'r flwyddyn 1654 tra deil ereill fod yr amser hwn yn rhy ddiweddar. Beth bynnag am hyn, yr oedd addoli yma yn gynnar yn hanner olaf yr ail ganrif ar bymtheg a dywedir codi'r capel cyntaf yn fuan ar ol 1661 yng Nghaeronnen. Adeiladwyd ail gapel Caeronnen yn 1747 ar les o 99 o flynyddoedd oddiwrth Mrs. Leticia Lloyd o Gaeronnen. Y mae'r capel hwn yn dal hyd heddiw a defnyddir ef fel ysgubor fferm Caeronnen a *Nemesis* wedi estyn y fferm a'r hen gapel yn ol i aelod o Gapel Caeronnen. Ni chlywais neb yn esbonio ond y mae braidd yn od i'r gynulleidfa adael adeilad cystal ar derfyn y les. Digon gwir saif y Capel presennol mewn man mwy cyfleus ar y ffordd fawr ond rywsut nid yw'n reswm digonol ar ei ben ei hun. Rywbryd tua 1813 daeth y Parch. Thomas Jones, Ffaldybrenin i bregethu yng Nghellan a thrwblwyd y dwr. Gadawodd rhai aelodau Caeronnen a ffurfiwyd Eglwys Capel Erw. Ymhlith swyddwyr Capel Erw tua therfyn y *les* ceir enw David Lloyd, Caeronnen. A oedd y

David Lloyd hwn yn perthyn i'r Mrs. Leticia Lloyd gynt? Tybed y ceir y gwir reswm yma os ydyw'r awgrym yn gywir. Beth bynnag codwyd y capel presennol yn 1845—6. Erbyn heddiw y mae yntau wedi'i weddnewid. Nid oes yn aros ohono ond pedair gwal lwyd a'r to, ac y mae'r gynulleidfa fach wedi mynnu'i weddnewid nes ei droi yn un o'r capelau prydferthaf a fedd yr enwad. Y mae'r gost dros bedwar cant o bunnau ac yr ym ein hunain wedi cyfrannu yn agos i'r hanner a dyna bwynt yr ysgrif, apelio at galon a phoced yr enwad i glirio'r ddyled sy'n aros er ei agor yn ddiddyled. Llunier i gall hanner gair.

. . . . . .

Clywir llawer o son yn aml am falchder hyd yn oed ym myd Crefydd ond i mi trueni i ysbryd Piwiritaniaeth ladd prydferthwch gan dybio ei bod yn haws addoli mewn ysgubor nag adeilad prydferth. Caraf i brydferthwch ac o na ddoi'r dydd pan weddnewidir hyn. Y mae'r prydferth yn gymorth i addoli Duw. Nid balchder na chariad at y prydferth a'n cymhellodd, and amser yn mynnu gosod ol ei droed arno. Nid o'n bodd y gwnaethom, oherwydd fod yr hen gapel yn annwyl iawn inni. Gadawsom ef hyd y funud olaf.

Wedi troi tudalennau hanes, deuthum o hyd i nodyn neu ddau sy'n peri blinder imi wrth feddwl am gasglu'r arian, ac yr wyf yn teimlo *tan orfod eu cael neu fethu cyn canol haf.* Y mae'n ddiddorol gwybod sut y codai'n teidiau gapel ers llawer dydd, a hoffwn i am dro fyw yn y dyddiau gynt. Addefaf fy mod yn eiddigeddu wrth y gwr oedd yn casglu arian at gapel Llwynpiod. Gyda llaw y mae'n well esbonio mai yn Llwynrhys yr addolid ar y dechreu ond tua 1712 codwyd Capel Llwynpiod a dyma'r "*Bill of Costs.*"

Money Laid upon building Llwynpiod Meeting House.

	£	s.	d.
For rising of Walls	3	15	6
For making of th Roof, Windows and Doors	1	8	0
For Thatching	1	10	0
For the Pulpit	1	15	0
For Glazing the Windows and a Table...	1	3	6
For Timber	2	0	0
For Thatch beides gifts	1	0	0
For Cledr and Wattles and Straw	1	1	0
	£13	13	0

Er ymddangos o hynyna braidd yn isel, gadawer i ni droi at Gapel Cyntaf y Cribyn. Gyda llaw, merch Caeronnen yw eglwys y Cribyn a gobeithio y cofia hyn, a'i mam mewn dyled. Dywedir mae'r Parch. Evan Davies, Caeronnen, gyda chynorthwy y Parch. David Davies, Castellhywel a fu'n foddion i ffurfio eglwys yma: codwyd y capel gyntaf yn 1790. Ptidd oedd ei furiau a gwellt ei do, a chan fod llawer o'r defnyddiau'n rhoddion, yr oedd y gost tan Ugain Punt.

Pwy ddydd darllenwn apel y Parch. John James gweinidog cyntaf Capelygroes (wedi ymadael o'r Dr. Charles Lloyd). Codwyd y capel cyntaf yn 1801—2 a chostiodd yn agos i Ganpunt. Talodd y gynulleidfa a chyfeillion yn agos yr hanner ac apeliodd y gweinidog at Eglwys Undodaidd Bryste. Llwyddodd oherwydd tanysgrifiodd Undodiaid Bryste ryw ddeugain punt ar unwaith. Nid yw hynyna ond awgrym i'r grwgnachwyr o'r modd y codid capelau 'slawer dydd.

. . . . . .

Ond i ddychwelyd at y testun. Daeth i'm llaw yn ddiweddar "*lyfr Jones, Lanlas*" fel y'i galwaf, ac yma ceir cofnod am bob un a fu'n pregethu yng Nghaeronnen am dros ddeng mlynedd ar hugain. Medr y llyfr bach ddadlennu rhamant Crefydd Caeronnen i ni, a rhoddaf yma ychydig gofnodion :

	£	s.	c.
November 8 (1840) Mr. Williams (Arthur Williams)	0	2	6
December 6 (1840) Mr. Griffis (Tau Gimel)	0	2	6
December 6 (1840) Mr. Evans, (Castell Hywel)	0	2	6
April 25 (1841) Mr. Griffis (Tau Gimel)	0	2	6
September 26 (1841) Mr. Jeremy	1	0	0
July 14 (1844) Mr. Walter Jeremi	0	2	6
January 17 (1847) Evan Lewis, Llanwnen	0	2	6
October 1 (1848) Mr. tits (Titis) Evans...	0	3	0
February 17 (1849) Mr. Peter Joseph	0	2	6
August 11 (1849) Mr. Thomas, Llandyssil	0	2	6
August 31 (1851) Mr. Davies, Froodvale (ar ran y Parch. D. Evans)			
October 10 (1858) John Jones (Davies) Tanycoed	0	2	6
September 11 (1859) John Velinvach	0	2	6
April 4 (1861) Mr. Jones, Bontarogwr	...		...
August 7 (1864) Rees Jones, Cribin	...		...

Ni chredaf fod odid bregethwr heb fod yn yr hen bulpud, ac er ymddangos o'r tal(2/6) yn fychan am wythnos, eto nid am dal y bu'r hen gewri'n pregethu. Y mae bellach yn agos i dri chan mlynedd wedi mynd, a Duw yn unig a wyr am ddylanwad Caeronnen. Y mae'r goleu eto nghynn. Bu yma gedyrn yn dal y gannwyll er ys llawer dydd. Bu'r dorf yn cyrchu yma i addoli Duw a cheir rhif cyfartaledd cynulleidfa Caeronnen rhyw gan mlynedd yn ol rhwng un cant a dau. Bellach y mae'r dorf wedi mynd. Y mae'r cewri wedi cefnu ond y mae'r goleu'n dal ac apelir am gynorthwy i glirio dyled Cynulleidfa a fu'n ddiwyd yn y winllan am dair canrif.

T. O. W.

SANTA CLOS.

(*Stori Nadolig i Blant.*)

"Pelto fory," gwaeddai Nansi, gan glapo'i dwylo bach.

"Na," meddai Jack, "yr wyt ti'n rhy fach i belto. Llefet pe caet belten. Nid chwarae mo pelto."

Cofiai Nansi y medrai Jack belto a thawodd.

"O, na hidia," meddai Jack eilwaith, "cei ddod i lunio dyn o eira neu rolio caseg eira gyda mi." Yr oedd cael mynd gyda Jack yn gwella Nansi. Mawr y mwstwr gylch y tân coed. Nid oedd eisieu goleu a *sham* oedd y lamp fach ar y pentan. Yr oedd y ddau yn llawen. Nos cyn y Nadolig ydoedd. Disgynnai'r eira'n ddyfal. Aeth y ddau at y ffenestr fach gan fwmial canu "plufio'r iar wen." Nid oes blentyn na châr weld gawad o eira. Rhedai Jack i'r drws yn awr ac yn y man. Ofni yr oedd y toddai'r eira cyn y bore. "Pelto"

a "chaseg eira"oedd ar ei feddwl. Fel yr hwyrheai codai'r gwynt. Credai Nansi mai trwmpet y gwynt oedd corn y simnai lwfer a thystiai Jack y dywedai'r gwynt yn nhwll y clo am y lluwch yfory. Er yn meddwl am y gaseg eira, ofnai Nansi rhag i'r lluwch rwystro Santa Clos, ond calonogai Jack hi drwy ddywedyd nad ofnai neb, ond merched bach, y lluwch.

Yn sydyn gofynnodd Jack, "Beth am y defaid?"

Ffermwr oedd Jack. Bu'r ddau'n meddwl yn hir am y defaid a'r lluwch heb flewyn glâs yn unman.

"Ie," meddai Nansi, "y defaid a'r tramp hefyd."

Yr oedd hi wedi gweld hen wr penllwyd ar y ffordd. Yn aml cysgai ar ryw dowlad neu gilydd. Dro arall yng nghlais y clawdd. Heno yr oedd ar lwybr y mynydd. O'r diwedd aeth y ddau yn fud. Gwyddai'r fam ei bod yn bryd cysgu. Aeth y ddau i'r gwely. Y mae'n haws mynd noson cyn Nadolig nag un noson arall. Nid amheua neb na dywedyd ei bod yn rhy gynnar. Ofnant fynd o Santa Clos heibio a hwythau yn amharod. Hongian y sanau'n gyfleus a Nansi'n cwyno mor fach ei hosan. Meddyliai Jack am "bistol" a "thrên" a "watch." Credai mai "cyllell" a "watch" oedd yn gwneuthur dyn. Y mae llawer yn ffolach na Jack serch hynny. "Doll" a "chwpanau bach" a "phêl," oedd ym meddwl Nansi. Yr oeddent ill dau'n llawen. Ceisient gadw ar ddihun er cael cip ar Santa Clos. O'r diwedd cofiodd Nansi eiriau'i Mam y cai a feddyliau ddiweddaf am dano cyn cysgu, ac o glustfeinio clywsech "doll" "cwpanau bach," "pêl": "doll"..

Trwblus oedd cwsg y ddau. Y corff yn cysgu a'r meddwl bach yn mynd. Daeth cri o'r gwely. Rhedodd y fam yno. Yr oedd popeth yn dawel ond fod Jack yn pelto Nansi yn ei gwsg. Ymhen tipyn dyma *glwriwns* ar y llofft; Jack wedi rholio Nansi dros yr erchwyn gan dybio ei bod yn gaseg eira. Blinodd y meddwl bach cyn hir a phan ddaeth Santa Clos nid oedd yno ond brawd a chwaer ynghwsg ynghôl ei gilydd.

* * *

Mewn ystafell ger llaw yn derfysglyd ddigon oedd chwaer bum mlwydd oed—*invalid* y teulu. Gwyddai hithau ei bod yn noson cyn Nadolig ond ni ddisgwyliai ddim. Cadwai poen hi ar ddihun a rhwng cwsg ac effro syllodd yn syn. Cysgai'i mam yn flinedig mewn cadair gerllaw iddi. Yr oedd y rŵm yn olau—rhyw olau pwl a gwyn. Yr oedd Jack a'i ddyn eira yn ei feddwl ac wele ger y gwely Santa Clos. Mor debig oedd i ddyn Jack. Yr oedd ei glogyn fel yr eira a'r cŵd ar ei gefn fel caseg eira. Edrychodd arno'n hir. Pan feddyliai am Jack gwelai "bistol" a "thrên" a "watch" yn y cŵd. Gwrandawai. Uwch rhu y gwynt clywai dic-dic y watch. Mor falch fydd Jack arni, meddyliai. Pan gofiai am Nansi, ai'r "pistol" a'r "trên" a'r "watch" i golli ac o enau'r cŵd gwenai y ddol bertaf a welsai erioed ac yn ei dwylo yr oedd *set* o "gwpanau bach." Ymhen ennyd y mae'n gafael mewn pêl ac yn ei thaflu dan wenu i'r gwely at y claf gan ei tharo. Griddfannodd hithau. Dihunodd y fam gan esmwytho ychydig ar y gobennydd. Cysgodd hithau eilwaith gan ofyn iddi ei hunan "Ai pêl ynteu poen?"

Ni chysgodd yn hir cyn i Santa Clos ddychwelyd ati. Yr oedd y wisg eira a'r farn wen wedi mynd a'r cŵd yn wâg. Teimlai'n siomedig nad oedd ganddo ddim iddi ond dim ond am ennyd. Yr oedd eu heisiau ar Jack a Nansi. Ni fedrai hi chwarae. Meddyliai a hi ei hun beth a garasai gael. Yr oedd popeth a oedd yn eisieu arni ganddi. Yr oedd ei mam gerllaw a Jack a Nansi. Nid oedd gan Santa Clos ddim i'w roddi iddi. Edrychodd eilwaith arno ac wele'n sefyll yno wr ieuanc mewn gwisg wen ddisglair. Doi at y gwely gan wenu. Rhoes ei law ar ei phen. Ciliodd y poen. Yr oedd yn iach a chysgodd tan y bore.

* * *

Dihunodd yn sŵn pistol Jack. Yr oedd fel Red Indian yn ceisio'i saethu—powns! powns! Clywai whît y trên a redai'n ol a blaen ar lawr y rŵm. Ni feddyliodd rhyw lawer ond pan dynnodd Jack ei "watch" new-

ydd o'i boced a hithau'n mynd *dic-dic*, torrodd y chwys oer allan. Ar y funud daeth Nansi ffwt-ffat yn droednoeth at y gwely gan roi pos iddi beth oedd yn yr hosan. Er syndod nid oedd bos yn y byd. Disgrifiodd y "ddol" a'r "cwpanau bach" a thaflodd Nansi'r bêl ati gan ei tharo, gan dybio iddi edrych yn yr hosan. Synnai'i mam. Synnai hithau na theimlau'r poen fel cynt. Hwyrach fod llaw Nansi'n ysgafnach na llaw Santa Clos, ond buan cofiodd am y gwr ieuanc a'r llaw dyner yn symud y poen.

* * *

Aeth Jack a Nansi i freewast: Jack yn saethu'i "bistol" a Nansi'n chware'i "phêl." Edrychodd y fam arni'n hir. Yr oedd wedi gwaelu ond yn ddiboen. Tynnodd ei llaw dros y talcen oer, gan ryfeddu disgrifio ohoni hosan Nansi.

"Ie, mam," meddai.

"Sut y gwyddet beth oedd yn hosan Nansi?" gofynnai'r fam "Neithiwr," atebai, "a chwithau'n cysgu i gyd, daeth Santa Clos i'r rŵm dair gwaith. Y tro cyntaf ni welais ond "pistol" a "thrên" a "watch." Dihunais yn sŵn dic-dic y watch. Ymhen ennyd cysgais wedyn a gwelais "ddol" a "chwpanau bach" a "phêl." Taflodd y ddol y bêl ataf gan fy nharo Griddfennais innau nes eich dihuno. Cofiwch i chwi fy symud, mam! Y trydydd tro daeth Santa Clos a'i gŵd yn wâg. Nid oedd ganddo ddim i mi. Nid oedd eu heisiau arnaf. Ciliodd yntau ac yn ei le safai gwr ieuanc mewn gwisg wen. Neshaodd at y gwely. Rhoes ei law ar fy mhen. Ciliodd poen. Yr wyf yn iach, mam! Pwy ydoedd? A gaf fi ei weld ar fyr eto?"

"Cei, merch i," oedd ateb y fam.

* * *

Arosodd y fam yn hir heb symud. Yr oedd y Claf yn dawel a gwên ar ei hwyneb oer. Rhedodd Jack a Nansi i'r rŵm ond yr oeddent yn deall. Cofleidiodd eu mam y ddau gan ddywedyd, "Y mae Santa Clos yn *cymryd* yn ogystal a *rhoi*."

Edrychai Jack ar ei "bistol" a'i "drên" a'i "watch" a Nansi ar y "ddol" a'r "cwpanau bach" a'r "bêl," ac yna ar y gwely.

"*Nid y'm yn foddlon ar y fargen, mam!*" meddai'r ddau fach.

"*Na fynnau chwaith*," atebai'r fam.

O edrych ar y wên ar wyneb y marw gellid tybio mai Santa Clos a wyddai oreu er troi yn drist Nadolig tri.

NANSI.

PRIODAS.

YM Mrondeifi, fore Sadwrn, Rhagfyr 5, gan y Gweinidog, ym mhresenoldeb y Cofrestrydd, unwyd mewn glan briodas Lewis William Jenkins, Tyncoedcae Farm, Merthyr, ond yn awr o Fanc Barclay, Llanbedr a Miss Maggie Davies, Brynteg, Llanbedr, merch Mrs. a'r diweddar Mr. Davies gynt o Alltyrodyn Arms, Llandysul. Hir oes a dedwyddwch fo i'r ddeuddyn ieuanc.

MARWGOFION.

HYDREF 21, bu farw Thomas David Lewis, Y Garth, Llanbedr, yn 65 mlwydd oed yn dra annisgwyliadwy ar y diwedd er fod ei iechyd yn pallu er ys llawer dydd. Cymeriad hynaws a thirion ydoedd a'i enaid yn y gân, a bu'n llwyddianus iawn fel arweinydd corau, ond diau mai fel blaenor y gân yn Noddfa y gwnaeth ei waith goreu. Claddwyd y dydd Mercher canlynol ym Methel, Caio. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. edigion Daniel Jones a T. O. Williams, M.A., ac yn y capel ac ar lan y bedd

gan y Parchn. D. Jones a Rufus Rogers, B.A. Gadawodd weddw a merch fechan, heblaw perthynasau ereill i wylo'u colled.

TACHWEDD 2, bu farw Sarah Jones, annwyl briod John Jones, Ivy Bush Hotel, Llanbedr, wedi cystudd byr ond caled. Gwraig dawel a gweithgar ydoedd yn caru'i theulu. Claddwyd y dydd Mercher canlynol ym mynwent Soar, Llanbedr. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., a'r angladd yn anghyoedd. Gadawodd briod, merch, ac un chwaer heblaw perthynasau ereill i alaru am briod ddiwyd, am fam dyner ac am gymydoges ddistaw.

TACHWEDD 28, yn 60 mlwydd oed, bu farw David Davies, Bryngwyn ger Llanbedr, yn Ysbyty Aberystwyth. Fore Iau y clafychodd yn gyflym ac ni bu dridiau cyn ehedeg ymaith. Gweithiwr diwyd a gwr tawel ydoedd ac yn fawr ei barch yn yr eglwys ac yn yr ardal. Claddwyd y dydd Mercher canlynol ym mynwent Eglwys Brondeifi, y gweinidog Y Parch. T. O. Williams yn gwasanaethu gyda chynorthwy caredig Y Parchn. R. C. Jones ac Owen Davies. Gadawodd weddw yn unig a pherthynasau ereill mewn hiraeth ar ei ol.

AT Y GOHEBWYR.

Cedwir y tudalen hwn er ateb y gohebwyr, er gwyntyllu a chroniclo awgrymiadau, ac er dadrys problemau. Rhoddaf ateb gonest a didderbyn-wyneb ond cofier mai barn bersonol y Golygydd fydd. Os digwydd imi lithro, caiff arall chwarae teg i'm cywiro. Rhoir rhyddid i bob un draethu'i farn ond disgwylir iddo wneuthur hynny'n ddiwenwyn a heb ddolurio teimlad yn ddiachos.

A.O.J.—Gofyn y gohebydd hwn dri chwestiwn a chan mai efe'n unig a ysgrifennodd ataf, ceisiaf ei ateb am ei fod yn gofyn cwestiynau o bwys i'r enwad yn gyffredin.

"Y *Llyfr Emynau Newydd.*" Er fy mod yn aelod o'r Pwyllgor, nid wyf yn sicr y medraf roddi ateb boddhaol. Yr ym wedi gwneuthur y gwaith mwyaf a disgwyliaf i iddo ymddangos yn ystod y flwyddyn. Y mae ambell oediad hir rhwng pwyllgor a phwyllgor ac nid ydym wedi cael pwyllgor er ys llawer dydd. Hwyrach y bydd i'ch llythyr beri i'r pwyllgor ymafael yn y gwaith o'r newydd gyda'r Flwyddyn Newydd.

"*Pwyllgor yr Achosion Gwan.*" Ni wn i ddim o hanes y Pwyllgor hwn ac am a wn i y mae wedi marw. Awgrymwyd ei alw yng Nghyfarfod Chwarter Aberdâr ymhen rhyw dair wythnos. Hwyrach y medr Ysgrifennydd y Gymdeithas roddi ateb llawnach yn yr "YMOFYNNYDD" nesaf. Yr wyf o'r un farn a chwi y dylasem symud heb oedi.

"*Ymddiriedolwyr Cwmwrdu.*" Yr wyf innau'n disgwyl gweld rhestr gyflawn o'r ymddiriedolwyr. Deallaf ei bod ym meddiant Llywydd y Gymdeithas ac y mae ef wedi'i awdurdodi gan y Gymdeithas i symud yn y mater. Gydag etifedd neu etifeddes yr ymddiriedolwr olaf yr oedd yr hawl i apwyntio ac nid gan y Gymdeithas. Ymddangosodd enwau'r ymddiriedolwyr a apwyntiwyd yng Nghwmwrdu yn yr "YMOFYNNYDD" a medrwch chwi a minnau gymharu'r ddwy restr. Y mae hanner olaf eich gofyniad yn bersonol, ac ni ddywedaf ond hyn, "*llawer gwir goreu'i gelu,*" dros amser o leiaf.

Dydd Nadolig, 1925.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, CARMARTHEN.

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.

For Suits and Costumes to order from 50s.

—Mourning at Shortest Notice.—

... Satisfaction Guaranteed. ...



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1850 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE : 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.